



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan ddaw'r archwilydd

Canllaw defnyddiol i ffermwyr

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Haen Gyffredinol yr SFS

Argraffiad 2026

ISBN 978-1-83745-161-6



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Egwyddorion Archwiliadau Cyffredinol	4
Egwyddorion Archwiliadau'r SFS	7
Gofynion ac Archwiliadau'r Cynllun	9
RHAN 1: CYFUNDREFN ARCHWILIO SYLFAEN REOLEIDDIO'R SFS.....	11
Gwirio Gofynion Rheoli Statudol (SMR)	13
Gwiriadau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)	32
RHAN 2: ARCHWILIO HAEN GYFFREDINOL YR SFS.....	35
Cymhwysra Tir	39
Y Cod i Bawb	41
Gweithredoedd Cyffredinol (UA).....	45
Cysylltiadau a Gwybodaeth Ychwanegol	62
Geirfa	67
Enghreifftiau o dempledi cofnodion fferm.....	68
Atodiad 1 - Cofrestr Buches.....	69
Atodiad 2 - Cofnodion Defaid a Geifr	71
Atodiad 3 – Cofnod prynu meddyginiaethau.....	78
Atodiad 4 - Cofnod rhoi meddyginiaeth.....	79
Atodiad 5 - Cofnod awdurdodiad dŵr daear.....	80
Atodiad 6 - Cofnod defnyddio plaladdwyr	81
Atodiad 7 - Dyddiadur GSFS	82
Atodiad 8 - Gofynion Dyddiadur Stocio.....	84
Atodiad 9 - Cylch Gwella lechyd Anifeiliaid	85
Atodiad 10 - Asesiad Risg Boddlogelwch.....	93

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn bennod newydd i amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n gynllun a ddyluniwyd ar y cyd; i'w gyflawni mewn partneriaeth ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth, tegwch a chydgyfrifoldeb.

Bydd cyfundrefnau archwilio ar wahân ar gyfer gwahanol agweddau ar y cynllun, fel a ganlyn:

- **Sylfaen Reoleiddio'r SFS** - set o ofynion cyfreithiol sy'n sail i'r SFS. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sy'n berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru, ac yn cwmpasu Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAP), Cynefinoedd a Rhywogaethau a Warchodir, adnabod da byw a lles anifeiliaid. Nid yw'r gofynion hyn yn newydd; roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu harchwilio o dan reoliadau Trawsgydymffurfio o'r blaen. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rhywogaethau Estron Goresgynol yn cael eu hychwanegu yn 2026 ar gyfer yr SFS yn benodol.
- **Haen Gyffredinol yr SFS** - yn cynnwys Cod i Bawb a set o 12 o Weithredoedd Cyffredinol. Nid yw gofynion y Cod i Bawb wedi'u cwmpasu gan ddeddfwriaeth ddomestig benodol, ond unwaith eto roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cynnwys a'u harchwilio o dan y rheoliadau Trawsgydymffurfio a chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Mae'r gofynion Gweithredoedd Cyffredinol i gyd yn newydd ac yn seiliedig ar arferion ffermio da. Bydd rhai os nad pob un ohonynt yn gyfarwydd i chi.

Mae'r cynllun yn gyfle ar gyfer ffyrdd newydd o weithio, gan greu perthynas wedi'i seilio ar atebolrwydd a pharch gan y naill at y llall, lle mae tryloywder a chydweithio yn sbarduno llwyddiant.

Mae monitro a mesurau rheoli yn rhan hanfodol o grantiau a chymorthdaliadau Llywodraeth Cymru, ac mae'r un peth yn wir am yr SFS. Rhaid i'n cyfundrefn arolygu sicrhau defnydd priodol o arian cyhoeddus drwy degwch, cydymffurfiaeth a thryloywder, a'ch cefnogi i fodloni gofynion y cynllun.

Felly, dylai ymweliadau â ffermydd ein helpu i gadarnhau cydymffurfiaeth o ran cynnal safonau uchel o ran iechyd anifeiliaid, diogelu'r amgylchedd a diogelwch bwyd, a'ch bod wedi cymryd camau i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir o dan y cynllun a rhoi sicrwydd bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Bydd yr holl archwiliadau yn cael eu cynnal gan Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) Llywodraeth Cymru a/neu Awdurdodau Rheoli Cymwys (CCA) eraill neu Asiantau Dirprwyedig ar ran Llywodraeth Cymru.

Egwyddorion Archwiliadau Cyffredinol

Cynhelir archwiliadau bob blwyddyn ar sampl gynrychiadol o ffermydd ledled Cymru.

Efallai y cewch eich dewis ar gyfer archwiliad:

- os ydych chi'n hawlio taliadau o dan gynlluniau cymorth amaethyddol neu
- os ydych chi'n geidwad gwartheg a/neu ddefaid, gan fod rheolau adnabod ac olrhain da byw yn berthnasol i'r rhai sy'n hawlio a'r rhai sydd ddim yn hawlio.

Mae'r sampl yn seiliedig ar fusnesau fferm. Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) yw'r cod adnabod unigryw ar gyfer pob cais a hawliad a bydd yn cwmpasu'r holl dir a ddatganwyd o dan y Ffurflen Cais Sengl (SAF). Defnyddir Rhif y Daliad (CPH) i adnabod a dewis Ceidwaid Da Byw i'w harchwilio. Gall mwy nag un CPH fod yn gysylltiedig ag un CRN.

Maen nhw'n cynnwys ymweliadau â ffermydd i wirio eich bod yn deall ac yn dilyn y rheoliadau a gofynion y cynllun sy'n berthnasol fel amod o gael cymorth ariannol.

Mae archwiliadau wedi'u cynllunio i'ch cefnogi, yn hytrach na chreu straen diangen. Drwy weithio gyda'n harchwilwyr, gallwn wneud y broses yn syml ac yn fuddiol.

Un archwilydd fydd yn cynnal yr archwiliad fel arfer, ond weithiau gall ei gydweithwyr neu archwilwyr ariannol (neu'r ddau) fod yn bresennol hefyd.

Rhoi gwybod am Archwiliad

- Ar gyfer Sylfaen Reoleiddio'r SFS a Haen Gyffredinol yr SFS, bydd archwiliadau fel arfer yn cael eu cynnal o fewn 5 diwrnod gwaith i'r hysbysiad; fodd bynnag, gellir darparu hyd at 10 diwrnod gwaith o dan amgylchiadau eithriadol.
- Ar gyfer Archwiliadau Adnabod Gwartheg, Adnabod Defaid a Geifr a Lles Anifeiliaid - yn fras, mae archwiliadau i fod yn ddirybudd, er ei fod yn dderbyniol caniatáu hyd at 48 awr o rybudd mewn achosion eithriadol. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw uniondeb a dilysrwydd yr arolygiadau yn cael eu peryglu.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

- Gweithredu mewn ffordd broffesiynol, deg a chyson i sicrhau bod pob ffermwr ledled Cymru yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal.
- Dilyn protocolau bioddiogelwch wrth gyrraedd a gadael eich fferm.
- Adolygu eich ceisiadau, eich hawliadau a'ch datganiadau, gan gynnwys y map SFS.
- Edrych i weld a ydych chi wedi gwneud cais i lacio'r rheolau.
- Edrych ar eich cydymffurfiaeth â Sylfaen Reoleiddio'r SFS, y Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol, fel y bo'n berthnasol.

- Archwilio parseli tir, cynefinoedd, coetiroedd, nodweddion tirwedd a nodweddion amgylchedd hanesyddol.
- Adolygu gweithgarwch a/neu ddyddiaduron stocio a dogfennau ategol.
- Tynnu lluniau o gydymffurfiaeth/diffyg cydymffurfiaeth
- Bydd yr archwilydd yn stampio a llofnodi cofnodion papur sydd wedi'u gweld. Bydd angen cyflwyno cofnodion electronig drwy e-bost neu drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.
- Cwblhau adroddiad cryno o'r archwiliad (IACS7), a fydd hefyd yn gyfle i chi wneud sylwadau ar yr archwiliad a gynhaliwyd.
- Ar gyfer archwiliadau da byw, edrych ar eich hanes cofnodi symudiadau, da byw ar y daliad ar ddiwrnod yr archwiliad a sampl gynrychiadol o dagiau clust.

Beth ddylech chi ei wneud

- Gwneud yn siŵr eich bod chi neu'ch cynrychiolydd awdurdodedig ar gael i gwrdd â'r archwilydd ar y dyddiad, yr amser ac yn y lleoliad y cytunwyd arnynt.
- Gwneud yn siŵr eich bod wedi ymateb i holl ohebiaeth Llywodraeth Cymru i ddatrys unrhyw ymholiadau.
- Cadw cofnodion cyfredol, cyflawn a chywir.
- Gwneud yn siŵr eich bod wedi hysbysu RPW am unrhyw newidiadau defnydd tir o fewn 30 diwrnod.
- Gwneud yn siŵr bod unrhyw gytundebau rhent/tenantiaeth yn barod i'w harchwilio.
- Cydweithredu'n llawn yn ystod yr archwiliad.
- Llofnodi'r crynodeb o'r archwiliad a chadw copi.

Ar ôl yr archwiliad

- Gellir cynnal archwiliadau dilysu pellach ar ôl yr archwiliad.
- Gall ffermydd fod yn destun ymweliadau ychwanegol yn dilyn archwiliad. Gallai hyn gynnwys:
 - Gwiriadau dilynol i wirio bod camau unioni wedi'u cymryd h.y. bod tagiau clust da byw newydd wedi'u rhoi ar yr anifail/anifeiliaid.
 - Sicrhau Ansawdd y broses archwilio, gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru neu Archwilio Cymru.
- Ar ôl cwblhau'r archwiliad, bydd y dogfennau canlynol ar gael i chi ar eich cyfrif RPW Ar-lein:
 - Llythyr Canfyddiadau'r Archwiliad (os canfyddir unrhyw anghysondebau yn yr archwiliad. Gall hyn gynnwys cyngor ar gyfer anghysondebau mân).
 - Crynodeb o Ganfyddiadau'r Archwiliad (IACS7)

- Map rhyngweithiol wedi'i ddiweddarau (ar gyfer archwiliadau'r SFS - Haen Gyffredinol)
- Manylion Tir a Ganfuwyd gan Archwiliad (IACS7A) (ar gyfer archwiliadau'r SFS - Haen Gyffredinol)
- Ar gyfer pob archwiliad CoAP a lles anifeiliaid, bydd llythyr ôl-archwiliad yn cael ei anfon yn lle IACS7.

Egwyddorion Archwiliadau'r SFS

Rydym wedi bod yn bendant wrth ddylunio'r cynllun y bydd ein mesurau rheoli yn bragmatig ac y byddwn yn ymateb yn gymesur i unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.

Ein nod felly yw peidio â chreu pryder neu faich diangen ond i weithio gyda chi i wneud y broses yn effeithlon a, gobeithio, yn brofiad buddiol i chi.

Bydd yr egwyddorion cyffredinol canlynol yn berthnasol i'r archwiliad Haen Gyffredinol:

- Cyfnod hysbysu hirach o 5 diwrnod gwaith i drefnu'r archwiliad.
- Ymwneud â ffermwyr cyn ac ar ôl yr archwiliad i drafod gofynion y cynllun.
- Cymhwystra tir drwy synhwyro o'r awyr ac o bell – archwiliadau wedi'u targedu ar y fferm i ddatrys unrhyw ymholiadau a nodwyd yn unig.
- Defnyddio samplau i archwilio ardaloedd o gynefin a choetir ar y fferm.
- Canolbwyntio ar gyflwr cynefin a choetir, nid gofynion penodol.
- Edrych ar gofnodion ar y fferm os oes angen i weld tystiolaeth o weithgarwch/cydymffurfiaeth.
- Dim angen edrych ar gofnodion ar y fferm ar gyfer unrhyw Weithredoedd Cyffredinol sydd wedi'u cwblhau a'u cadarnhau drwy ddarparwyr Cyswllt Ffermio neu Gwarant Fferm.
- Ymateb cymesur i unrhyw broblemau, camgymeriadau neu wallau a ganfuwyd yn yr archwiliad.

Mae cyfathrebu yn allweddol. P'un a yw'n hysbysu am oedi neu amgylchiadau annisgwyl, bydd archwilydd yn gwneud eu gorau glas i addasu i'ch sefyllfa. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod archwiliadau'n deg, yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar eich helpu i fodloni gofynion heb fod yn faich.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi i'ch helpu i baratoi ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS 2026. Mae'n offeryn cyfeirio y gallwch ei gadw a chyfeirio ato. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canlynol:

- Taflenni ffeithiau Sylfaen Reoleiddio'r SFS - [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Sylfaen reoleiddio 2026 | LLYW.CYMRU](#)
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol: Canllawiau 2026, ar gyfer manylion cod i pawb a gweithredoedd cyffredinol SFS - [Cynllun Ffermio Cynaliadwy \(2026\): haen gyffredinol: llyfryn rheolau | LLYW.CYMRU](#)
- Ffurflen Cais Sengl 'Sut i'w llenwi' (Ar gael ym mis Mawrth 2026)
- Canllawiau i Geidwaid Gwartheg – rheolau ar gyfer cofrestru a symudiadau - [Gwartheg: cofrestru a symudiadau | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)
- Canllawiau i geidwaid – rheolau ar gyfer adnabod defaid a geifr - [Adnabod defaid a geifr: canllawiau i geidwaid | LLYW.CYMRU](#)
- Rheoli Llygredd Amaethyddol - <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-10/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr.pdf>

- Mae nodiadau canllawiau technegol ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y canllaw yma yn cael ei ddiweddarau wrth i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol gael eu cyflwyno.

Gofynion ac Archwiliadau'r Cynllun

Mae'r SFS yn gweithredu o dan dair set glir a gwahanol o ofynion, sef:

- **Sylfaen Reoleiddio'r SFS**, sy'n cwmpasu gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i bob fferm yng Nghymru, megis bioamrywiaeth, lles anifeiliaid, diogelu dŵr (yn cynnwys CoAP) a rheolau adnabod da byw.
- **Y Cod i Bawb**, sy'n nodi safonau ar gyfer mesurau diogelu pridd. Bioamrywiaeth a rheoli cynefinoedd. Gofal coed a gwrychoedd. Cynnal nodweddion tirwedd hanesyddol a diwylliannol. Mae hefyd yn cynnwys y **gofyniad bod 10% o bob fferm yn gynefin**.
- **Y Gweithredoedd Cyffredinol**. Ymrwymadau penodol i'r fferm rydych chi'n eu gwneud fel rhan o'ch datganiad blynyddol a'ch ymrwymadau ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF).

Er mwyn sicrhau tegwch, tryloywder ac atebolrwydd yn ystod y cyfnod pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) i'r SFS, bydd archwiliadau'n digwydd fel a ganlyn:

Cyfundrefn Archwilio Sylfaen Reoleiddio'r SFS: Mae hyn yn cwmpasu'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i bob fferm yng Nghymru. Bydd yr archwiliadau hyn yn parhau i weithredu yn unol â'r archwiliadau trawsgydymffurfio sy'n parhau, ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n gwneud cais am BPS, gan fod y gyfraith yn berthnasol i bob ffermwr, waeth pa gynllun cymorth rydych chi'n gwneud cais iddo ac yn ei hawlio.

Noder: Mae archwiliadau CoAP, Lles, Adnabod Gwartheg ac Adnabod Defaid hefyd yn rhan o'r Archwiliadau Sylfaen Reoleiddio.

Archwiliad Haen Gyffredinol yr SFS: Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cymhwysra Tir:** sy'n cynnwys edrych ar ffiniau caeau, codau cnydau a nodweddion anghymwys fel y'u harchwiliwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Gellir defnyddio technoleg delweddau lloeren ac o'r awyr hefyd.
- **Cod i Bawb:** sy'n cynnwys y safonau a'r gofynion a nodir ar gyfer y fferm gyfan. Bydd yn debyg i'r archwiliadau trawsgydymffurfio a gynhaliwyd yn flaenorol, gyda'r gofyniad bod 10% o fferm yn gynefin wedi'i ychwanegu.
- **Gweithredoedd Cyffredinol:** a fydd yn edrych ar yr holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm.

Safonau Dilysadwy a Sanctsiynau:

Cyfeirir at ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS, Cymhwysra Tir, y Cod i Bawb neu Weithredoedd Cyffredinol fel tor rheolau neu dramgwydd, a gellir ei nodi o ganlyniad i archwiliad neu wiriadau gweinyddol.

Bydd RPW yn asesu'r achosion hyn o dorri rheolau yn erbyn ein set gyhoeddedig o Safonau Dilysadwy a Matricsau Sancsiynau i sicrhau cysondeb, tryloywder a thegwch.

Mae dwy set ar wahân o Safonau Dilysadwy a Matricsau Sancsiynau. Mae un ohonynt yn berthnasol i Sylfaen Reoleiddio'r SFS, a'r llall yn berthnasol i Haen Gyffredinol yr SFS.

Mae'r Safonau Dilysadwy a'r Matricsau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

Sylfaen Reoleiddio'r SFS

[Cynllun Ffermio Cynaliadwy: sylfaen reoleiddio: safonau dilysadwy 2026 | LLYW.CYMRU](#)

[Cynllun Ffermio Cynaliadwy: sylfaen reoleiddio: matrics cosbi taliadau \(2026\) | LLYW.CYMRU](#)

Haen Gyffredinol yr SFS

[Cynllun Ffermio Cynaliadwy \(2026\): haen gyffredinol: cod cyffredinol a gweithredoedd cyffredinol safonau dilysadwy | LLYW.CYMRU](#)

[Cynllun Ffermio Cynaliadwy \(2026\): matrics cosbau | LLYW.CYMRU](#)

Mae manylion llawn am Sancsiynau ar gael yn Adran Q: Gostyngiadau i daliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau yn llyfryn yr SFS – Canllawiau Cyffredinol 2026.

RHAN 1: CYFUNDREFN ARCHWILIO SYLFAEN REOLEIDDIO'R SFS

Mae Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn set o ofynion cyfreithiol sy'n sail i'r cynllun; o ganlyniad, caiff ein gwaith ei lywodraethu gan reolau penodol nad ydynt yn caniatáu'r un hyblygrwydd â SFS. Maen nhw'n berthnasol i bob busnes fferm yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn Drawsgydymffurfio y dylech chi fod yn gyfarwydd â hi eisoes.

Mae taflenni ffeithiau Sylfaen Reoleiddio'r SFS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-llinell-sylfaen-reoleiddiol-2026>.

Noder: Mae elfennau o'r sylfaen reoleiddio sy'n gofyn am gyfundrefnau archwilio ar wahân, er enghraifft, gwartheg, defaid, lles anifeiliaid a CoAP. Ni fydd y rhain yn cael eu cyfuno fel rhan o'r archwiliad Haen Gyffredinol gan eu bod yn cael eu dewis a'u harchwilio yn annibynnol, gan gynnwys rhai gan Awdurdodau Rheoli Cymwys eraill, gweler y tabl isod.

Awdurdod Rheoli Cymwys (CCA)	Maes Cyfrifoldeb
Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) Llywodraeth Cymru	SMR 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 14, 15. GAEC 6 a 7.
Cyfoeth Naturiol Cymru	SMR 1 a GAEC 2 a 3
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	SMR 11, 12, 13
Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (Cynhelir yr archwiliadau gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd)	SMR 5

Sut i baratoi

- Dilynwch arferion ffermio da, gan gynnwys safonau uchel o ran iechyd anifeiliaid, diogelu'r amgylchedd a diogelwch bwyd.
- Os ydych chi'n rhentu tir i mewn neu allan yn ystod y flwyddyn, bydd angen i chi ystyried telerau'r cytundeb contractiol rhyngoch chi a'r trosglwyddai/trosglwyddwr yn ofalus.

- Dylech wneud yn siŵr bod eich buddiannau'n cael eu diogelu os caiff y Sylfaen Reoleiddio ei thorri ac y gellir priodoli hynny'n uniongyrchol naill ai i'r ffermwr a drosglwyddodd y tir neu'r ffermwr y trosglwyddwyd y tir iddo.

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Manylion y datganiad a map o'r holl dir a gofnodwyd ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) ddiweddaraf.
- Hanes archwiliadau blaenorol.
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i bob gofyniad rheoleiddio.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cerdded y tir rydych chi'n gyfrifol amdano:
 - Yr holl dir sydd wedi'i ddatgan ar y SAF.
 - Unrhyw dir heb ei ddatgan sydd ar gael i'r busnes ffermio yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adeiladau, coetiroedd neu ardaloedd anamaethyddol eraill.
- Cyfrif ac archwilio'r HOLL dda byw rydych chi'n gyfrifol amdanynt:
 - Yr holl anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru o dan CPHs, sy'n gysylltiedig â'r CRN ar gyfer eich busnes ffermio.

Edrych ar:

- Y Gofynion Rheoli Statudol (SMRs) ac
- Y Cyflyrau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAECs) canlynol
 - GAEC 2: dŵr – dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i ddyfrhau
 - GAEC 3: dŵr – dŵr daear
 - GAEC 6: pridd a deunydd organig – cynnal a chadw
 - GAEC 7: nodweddion y dirwedd (henebion cofrestredig, ffosydd a choed)

Gwirio Gofynion Rheoli Statudol (SMR)

SMR 1 - Diogelu Dŵr

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 1.
 - [Rheoli rheoliadau llygredd amaethyddol: canllawiau | LLYW.CYMRU](#)
 - [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: llinell sylfaen reoleiddiol: diogelu dŵr \(SMR 1\) \(2026\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Pethau i'r hystyried

- Mapiau risg (gan gynnwys lleoliad tomenni/tasau mewn caeau ac ardaloedd lle na cheir gwasgaru).
- Cynlluniau Rheoli Nitrogen.
- Gwnewch yn siŵr bod CNC yn cael ei hysbysu cyn dechrau gwaith i adeiladu/newid storfeydd silwair a storfeydd slyri.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

- Swyddogion CNC fydd yn cynnal yr archwiliad fel arfer.
- Bydd yr archwilydd yn edrych ar y gofynion canlynol.

Archwiliad ar y fferm

- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar wasgaru – e.e. peidio â gwasgaru tail nitrogen organig o fewn 50m i dwll turio, pistyll neu ffynnon, 10m i gwrs dŵr (neu 6m os ydych chi'n defnyddio offer manwl h.y. system esgid lusk (trailing shoe), bar diferion neu chwistrellu).
(*15m (neu 10m os ydych chi'n defnyddio offer manwl) os ydych chi'n dilyn y Dull Rheoli Maethynnau Uwch).
- Gwirio bod amodau'r tir yn cael eu bodloni, a nad yw gwasgaru wedi'i wneud pan fo'r tir:
 - Yn dyfrlawn
 - Wedi'i orlifo
 - Wedi rhewi neu wedi'i orchuddio â eira
 - Â llethr o 12 gradd neu fwy
- Wrth wasgaru gwrteithiau a weithgynhyrchwyd, dylid sicrhau bod llain glustogi o 2m rhwng yr ardal wasgaru a chysiau dŵr.
- Gwirio safonau adeiladu ar gyfer systemau storio silwair a slyri, gan gynnwys y gofyniad i roi 14 diwrnod o rybudd i CNC cyn dechrau ar adeiladu storfa silwair

neu slyri newydd, neu un sydd wedi'i hehangu'n sylweddol neu wedi'i hailadeiladu, ynghyd â lleoliadau pentyrrau silwair cae.

- Rheolir storfeydd silwair a slyri yn briodol, gan gynnwys cynnal y bwrdd rhydd.
- Mae lleoliad tomenni/tasau dros dro mewn caeau yn bodloni'r gofynion e.e. pellter oddi wrth nentydd a thyllau turio, lleoliadau blaenorol ac ati.
- Mae digon o le yn y system storio Slyri i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofyniad storio 5 neu 6 mis.

Archwiliad cofnodion

- Gwirio Mapiau Risg
 - Mapiau risg gwasgaru tail organig.
 - Lleoliad tomenni/tasau dros dro mewn caeau.
- Gwirio cyfrif o'r llwyth nitrogen ar gyfer y fferm gyfan (gan gynnwys nifer blynyddol ar gyfer da byw – oedran a mathau am y 12 mis blaenorol).
- Gwirio cynllun ysgrifenedig ar gyfer pob cais o wrteithiau nitrogen organig a gweithgynhyrchwyd, ynghyd â chofnodion y ceisiadau a manylion cynyddio, e.e. dyddiad hau a chynnyrch. Gall eithriadau fod yn gymwys ar gyfer cofnodi Ceisiadau - gweler yr atodiad.
- Gwirio cofnodion am dail organig a fewnforiwyd ac a allforiwyd (os yw hynny'n berthnasol).
- Gwirio nad yw'r uchafswm o geisiadau nitrogen o ffynonellau organig a gweithgynhyrchwyd ar gyfer pob cnwd a restrir wedi'i ragori.
- Gwirio nad yw'r uchafswm o 250kg/ha o Nitrogen o wrtaith organig wedi'u ragori mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ar sail parseli tir unigol.
- Gwirio gyfrifiad llwyth Nitrogen y fferm gyfan o dail da byw i sicrhau nad yw'n fwy na 170kg/ha.
- Cyfrifo faint o le sydd ar gael i storio slyri.
- Cyfrifiad cynnyrch slyri.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i lenwi'r llyfr gwaith yma:

[Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021: canllawiau gweithlyfr fferm | LLYW.CYMRU](#)

Nid yw'n ofynnol i chi ddefnyddio'r llyfr gwaith, fodd bynnag, rhaid cynnal y cyfrifiadau gofynnol.

Mae eithriadau ar waith rhag cofnodi'r gwasgaru gwirioneddol o wrteithiau organig neu weithgynhyrchwyd. Mae hyn yn berthnasol i ddaliadau lle, mewn unrhyw flwyddyn galendr, mae'r holl amodau canlynol yn gymwys:

- mae 80% o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi'u hau â glaswellt;
- nid yw cyfanswm y nitrogen mewn tail organig a ddefnyddir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy ei wasgaru, yn fwy na 100kg/ha (o cyfrifiad daliad cyfan)
- nid yw cyfanswm y nitrogen mewn gwrtaith a weithgynhyrchwyd a ddefnyddir ar y daliad yn fwy na 90kg/ha (gynllun Nitrogen) a
- nid oes unrhyw dail organig sy'n cael ei ddwyn i'r daliad wedi'u heithrio rhag gorfod cofnodi faint o wrteithiau nitrogen organig neu wrteithiau a weithgynhyrchwyd a wasgarwyd mewn gwirionedd.

Bydd angen i chi gwblhau Cynllun Rheoli Maethynnau o hyd. Rhaid cadw pob cofnod am o leiaf bum mlynedd a rhaid eu dangos yn ystod archwiliad os bydd archwilydd yn gofyn am eu gweld.

SMR 2 - Adar Gwyllt; SMR 3 - Gwarchod Ffawna a Fflora

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 2 a SMR 3.
- Peidiwch â lladd, anafu na chymryd unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol.
- Peidiwch â dinistrio'n fwriadol neu'n ddi-hid nyth unrhyw aderyn gwyllt tra bydd y nyth yn cael ei ddefnyddio neu ei adeiladu nac aflonyddu ar adar ifanc sy'n ddibynnol ar eu rhieni.
- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw wrychoedd yn cael eu hadfer e.e. tocio, plygu neu fondocio gwrychoedd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. Mae eithriadau yn berthnasol – gweler y Cod i Bawb.
- Ni ddylai planhigion gwyllt sydd wedi'u rhestru'n 'rhywogaethau a warchodir gan Ewrop' neu'n 'rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol' gael eu pigo, eu casglu, eu torri, eu dadwreiddio na'u dinistrio'n fwriadol.
- Ni ddylid tarfu ar anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u rhestru'n 'rhywogaethau a warchodir gan Ewrop' neu'n 'rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol' ac ni ddylid difrodi, dinistrio na rhwystro'u mannau cysgodi.
[Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhestr o rhywogaethau a warchodir](#)
- Dim ond gwaith y mae CNC wedi rhoi cydsyniad ar ei gyfer y dylech ei wneud mewn:
 - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
 - Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
 - Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA).
- Bydd lleoliadau SoDdGA, ACA a AGA i'w gweld ar eich Map SFS

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Map o leoliad unrhyw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Gwneud yn siŵr nad oes unrhyw waith adfer gwrychoedd wedi'i wneud e.e. tocio, plygu neu fondocio gwrychoedd, yn ystod y cyfnodau gwaharddedig (gweler y Cod i Bawb: Gwaharddiad ar dorri/tocio yn ystod y tymor bridio a magu adar – 1 Mawrth tan 31 Awst). Mae eithriadau yn berthnasol – gweler y Cod i Bawb.
- Chwilio am unrhyw arwyddion/achosion o wenwyno neu ddulliau annetholus o ddal/lladd adar.
- Edrych i weld a losgwyd unrhyw dir lle mae nythod y gallai adar fod yn eu defnyddio.

- Edrych i weld a yw unrhyw weithrediadau penodedig sy'n cael eu cyflawni ar SoDdGA/ACA yn cael eu cyflawni yn unol â chaniatâd ysgrifenedig SoDdGA gan CNC.
- Edrych i weld a yw mannau cysgodi neu fannau bridio anifeiliaid gwarchodedig wedi cael eu rhwystro, eu difrodi neu eu dinistrio.
- Edrych i weld a oes arwyddion o aflonyddu ar unrhyw anifail gwarchodedig, neu a oes rhai wedi cael eu lladd neu eu hanafu'n anghyfreithlon.
- Edrych i weld a oes unrhyw blanhigyn gwarchodedig wedi cael ei bigo, ei gasglu, ei dorri, ei ddadwreiddio neu ei ddinistrio'n fwriadol.

Archwiliad cofnodion

- Edrych i weld a yw CNC wedi rhoi unrhyw drwyddedau a allai ganiatáu gweithgareddau penodol gael eu cynnal e.e. atal lledaeniad clefydau. Gall y rhain fod yn drwyddedau cyffredinol, a gyhoeddir yn flynyddol ar wefan CNC, neu'n drwyddedau penodol yr ydych wedi gwneud cais amdanynt ac wedi'u derbyn gan CNC.
- Gwirio caniatâd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA / SSSI) ar gyfer y camau rheoli penodedig a'r amodau cysylltiedig.

SMR 4 – Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 4.
- Gwnewch yn siŵr bod profion TB yn cael eu cynnal erbyn y dyddiad priodol. Ceisiwch brofi mor gynnar â phosibl yn ystod y cyfnod profi er mwyn osgoi problemau. Rhaid rhoi cyfrif am bob anifail cyn y bydd APHA yn derbyn bod prawf wedi'i gwblhau.
- Gwnewch yn siŵr mai dim ond cwmnïau bwyd anifeiliaid cofrestredig rydych chi'n eu defnyddio.
- Cadwch dderbynebaw bwyd anifeiliaid e.e. nodiadau danfon, anfonebau ac ati.
- Os ydych chi'n cynnwys fitaminau, mwynau, ychwanegion penodol neu feddyginiaethau milfeddygol mewn rhag-gymysgedd neu fwyd anifeiliaid, rhaid i'r cynhyrchwyr hynny fod wedi'u cofrestru (at eu defnydd eu hunain ac ar gyfer gwerthu) gyda'r awdurdod cymwys.
- Rhaid i gofnodion meddyginiaethau a phlalladdwyr fod yn gyfredol. Rhaid cael gwared mewn ffordd briodol ar unrhyw gynhyrchion sydd wedi darfod.
- Gwnewch yn siŵr bod unrhyw Feddyginiaethau Milfeddygol yn cael eu rhoi'n gywir fel y nodir ar y label a bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn cael eu parchu.
- Gwnewch yn siŵr bod mannau storio bwyd anifeiliaid yn lân. Rhaid storio gwastraff a sylweddau peryglus mewn ffordd sy'n atal cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rhag cael eu halogi. Rhaid storio bwyd anifeiliaid yn ddigon pell oddi wrth gemegau neu unrhyw gynhyrchion eraill y gwaherddir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid.
- Gwnewch yn siŵr bod bwyd anifeiliaid yn cael ei ddiogelu rhag plâu.
- Rhaid i gynhyrchwyr wyau (dros 50 o adar) fod wedi'u cofrestru gydag APHA; rhaid cadw wyau'n lân, yn sych ac allan o lygad yr haul.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun bioddiogelwch/lechyd Anifeiliaid (trafodwch gyda'ch milfeddyg).
- Ar gyfer cynhyrchwyr llaeth os ydych chi'n bodloni safonau cynlluniau Gwarant Ffermydd Llaeth, rydych chi'n bodloni gofynion hylendid llaeth.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych ar y man storio bwyd anifeiliaid – a yw'n ddigonol a sicrhau nad oes risg iddo gael ei lygru gan sylweddau peryglus.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn dilyn eich cynllun bioddiogelwch e.e. mesurau rhagofalus wrth gyflwyno anifeiliaid newydd.
- Edrych ar y storfa meddyginiaethau ac archwilio sampl o'r cynhyrchion.
- Cynhyrchwyr wyau – edrych ar y storfeydd.
- Cynhyrchwyr llaeth – archwilio'r llaethdy/cyfarpar a thrafod trefniadau.

Archwiliad cofnodion

- Edrych ar sampl o'r dogfennau (h.y. nodiadau danfon a derbynebaw gwerthu bwyd anifeiliaid) ar gyfer pob menter fferm (e.e. da byw, llaeth, grawnfwydydd ac ati).
- Gwneud yn siŵr bod cyflenwyr bwyd anifeiliaid wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod cymwys.
- Edrych ar y cofnod Meddyginiaethau a gwneud yn siŵr bod cynhyrchion wedi'u rhestru a bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn cael eu parchu.
- Cymharu profion TB a gynhaliwyd cyn ac ar ôl symud ar gyfer anifeiliaid a werthwyd, a brynwyd neu a symudwyd (lle bo hynny'n berthnasol).
- Os cymysgir bwyd anifeiliaid, cadarnhau bod cynhyrchwyr wedi'u cofrestru.
- Edrych ar gofnodion adnabod anifeiliaid sydd wedi cael triniaeth.

SMR 5 – Cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd a thyrostatig

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (ar y fferm) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (mewn lladd-dai) yn cynnal gwaith samplu ar gyfer gweddillion sylweddau gwaharddedig ar ran y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol o dan y Cynllun Gwyliaeth Cenedlaethol. Bydd samplau sy'n dangos canlyniad positif neu'n cadarnhau bod sylwedd gwaharddedig wedi cael ei ddefnyddio yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Archwiliad ar y fferm

- Edrych ar y cofnod meddygol a'r storfa, gan edrych yn benodol ar gofnodion ar gyfer y triniaethau therapiwtig uchod a gwneud yn siŵr bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn cael eu parchu
- Edrych ar gyflwr y gwartheg, a'i gymharu â nodweddion y brîd
- Gwneud yn siŵr nad oes cynhyrchion sydd heb ganiatâd wedi'u defnyddio

SMR 6 – Moch: Adnabod a chofrestru

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 6.
- Gwnewch yn siŵr bod cofnodion yn gyflawn ac yn gyfredol.
- Cadwch gopïau o ddogfennau symud.
- Defnyddiwch ddulliau adnabod priodol ar yr anifeiliaid sy'n gadael y daliad
- Cwblhewch gyfrif blynyddol.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cenfaint wedi'i chofrestru gyda'r awdurdod cymwys (APHA).

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Manylion am drwyddedau a gyflwynwyd i eAMLS.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cyfrif yr holl foch ar y daliad.
- Edrych ar sampl o dagiau anifeiliaid a brynwyd – tag clust, slapfarc neu datŵ.
- Edrych ar y dull adnabod (tag, tatŵ neu slapfarc) ar y moch sy'n gadael y daliad.

Archwiliad cofnodion

- Cadarnhau bod y moch wedi'u cofrestru gydag awdurdod cymwys.
- Ffigurau'r cyfrif blynyddol.
- Cofnod symud a thrwyddedau symud.

SMR 7 – Archwiliad Adnabod Gwartheg

Mae'r archwiliadau adnabod gwartheg yn annibynnol ar, ac ar wahân i, brif archwiliad sylfaen reoleiddio'r SFS.

Er bod adnabod gwartheg yn rhan o gyfundrefn archwilio Sylfaen Reoleiddio'r SFS, gellir dewis Ceidwaid Da Byw ar gyfer archwiliadau ar wahân gan ddefnyddio rhifau CPH a ddefnyddir ar gyfer cofrestru gwartheg. Os oes mwy nag un CPH yn gysylltiedig ag un CRN, bydd da byw o dan y CPHs cysylltiedig hynny yn cael eu harchwilio hefyd.

Os oes modd, bydd archwilwyr yn ceisio cydlynu archwiliadau adnabod gwartheg gyda phrofion TB fel nad yw anifeiliaid yn cael eu trin mwy nag sydd angen, ond ni fydd hyn yn digwydd bob amser.

Sut i baratoi

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 7.

- Gwnewch yn siŵr bod genedigaethau, symudiadau a marwolaethau yn cael eu hysbysu o fewn y terfynau amser.
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl wartheg wedi'u tagio'n gywir.
- Edrychwch ar y System Orlhain Gwartheg (CTS) ar-lein yn rheolaidd i sicrhau bod eich gwartheg wedi'u rhestru'n gywir a rhowch wybod i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) am unrhyw gamgymeriadau. Ewch ati i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ymddangos yn y system Goleuadau Traffig (ar CTS).
- Cymharwch siartiau profion TB yn erbyn CTS ar-lein a gwiriwch yn rheolaidd fod eich cofrestr buches yn gyflawn ac yn gyfredol. Ydy'r wybodaeth yn eich cofrestr buches yn cyfateb i'r wybodaeth ar CTS ar-lein? Os na, gweithredwch yn gyflym i ddatrys y mater.
- Edrychwch ar eich pasbortau gwartheg:
 - Oes gan yr holl wartheg basbort?
 - Ydy manylion pasbortau yn cyfateb i gofnodion y fferm?
 - Oes labeli cod bar wedi'u mewnosod?
 - Ydy pasbortau wedi'u llofnodi?
 - Ydy manylion pasbortau yn cyfateb i'r anifeiliaid?
- Dylid dychwelyd pasbortau ar gyfer anifeiliaid sydd ddim ar eich daliad mwyach i BCMS.
- Edrychwch ar eich gwartheg yn rheolaidd i weld a oes unrhyw dagiau ar goll neu sy'n amhosibl eu darllen – archebwch rai newydd a'u gosod o fewn 28 diwrnod.
- Cyfleusterau trin – gwnewch yn siŵr bod y rhain yn ddiogel a bod gennych ddigon o bobl i ymgymryd â'r archwiliad. Mae gennych gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd sy'n dod i'ch fferm, gan gynnwys archwilwyr.

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Rhestr BCMS o wartheg sydd ar eich daliad ar hyn o bryd.
- Rhestr BCMS o anifeiliaid sydd wedi symud oddi ar eich daliad yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Manylion unrhyw anifeiliaid y mae cwestiynau yn eu cylch o CTS ar-lein.
- Map o'ch rhifau CPH fel y maen nhw wedi'u cofrestru ar Rheoli fy CPH.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych ar y ddau dag clust ar gyfer yr HOLL wartheg a chofnodi unrhyw dagiau clust coll neu sydd ddim yn cyfateb i'w gilydd.
- Cadarnhau rhyw, brîd ac oedran pob anifail.
- Ystyried lleoliad anifeiliaid mewn perthynas â'r CPH.

Archwiliad cofnodion

- Ar gyfer yr holl wartheg a welwyd yn yr archwiliad:
 - Gwneud yn siŵr bod y manylion ar restr BCMS yn cyfateb i gofnodion y fuches e.e. rhyw, brîd, dyddiad geni, rhif adnabod y fam, symudiadau ac ati.
 - Gwneud yn siŵr bod cofrestriadau genedigaeth a hysbysiadau symud wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni ar gyfer y flwyddyn galendr.
 - Ar gyfer sampl o anifeiliaid, gwneud yn siŵr bod ganddynt basbort gyda label cod bar a llofnod y ceidwad arno.
- Ar gyfer gwartheg a symudwyd oddi ar y daliad:
 - Cymharu sampl o gofnodion yn erbyn rhestr BCMS e.e. rhyw, brîd, dyddiad geni, rhif adnabod y fam, symudiadau.
 - Edrychwch ar gofnodion unrhyw anifeiliaid y holwyd amdanynt.
 - Gwneud yn siŵr bod hysbysiadau geni/marw/symud wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni ar gyfer y flwyddyn galendr.

SMR 8 – Archwiliad Adnabod Defaid a Geifr

Mae'r archwiliadau adnabod defaid a geifr yn annibynnol ar, ac ar wahân i, brif archwiliad sylfaen reoleiddio'r SFS.

Er bod adnabod defaid a geifr yn rhan o gyfundrefn archwiliadau Sylfaen Reoleiddio'r SFS, gellir dewis Ceidwaid Da Byw ar gyfer archwiliadau ar wahân gan ddefnyddio rhifau CPH a ddefnyddir ar gyfer cofrestru defaid a geifr. Os oes mwy nag un CPH yn gysylltiedig ag un CRN, bydd da byw o dan y rhifau CPH cysylltiedig hynny yn cael eu harchwilio hefyd.

Bydd y broses ddethol ar gyfer archwiliadau adnabod defaid a geifr yn annibynnol ar, ac ar wahân i, y brif broses ddethol ar gyfer archwiliad sylfaen reoleiddio.

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 8.
- Cyfrifwch yr HOLL stoc a chofnodwch ffigurau stoc cywir ar gyfer 1 Rhagfyr bob blwyddyn.
- Cyflwynwch Stocrestr Flynyddol (dylai gyfateb i'r ffigur stoc yn eich cofnodion).
- Gwnewch yn siŵr bod cofnodion yn gyflawn ac yn gyfredol, gan gynnwys manylion pryd y mae anifeiliaid yn cael eu hadnabod am y tro cyntaf.
- Gwnewch yn siŵr bod Trwyddedau Symud ar gael ac yn cael eu cadw yn nhrefn dyddiad.
- Gwnewch yn siŵr bod marwolaethau'n cael eu cofnodi a bod dogfennaeth ategol yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny e.e. derbynebaw iard gelanedd/cynelau cŵn hela/Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (NFSCo) gan gynnwys rhifau tagiau clust unigol.
- Dylid tagio defaid a geifr yn gywir, a dylid gosod tagiau newydd yn lle rhai coll o fewn 28 diwrnod i sylwi bod tag ar goll.
- Edrychwch ar y niferoedd anifeiliaid ar eich daliad.
- Gwnewch yn siŵr bod cyfleusterau trin yn ddiogel a bod digon o bobl ar gael i ymgymryd â'r dasg yn ddiogel.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch cofrestru fel ceidwad defaid a geifr gydag APHA.

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Copi o'r Stocrestr Flynyddol.
- Manylion trwyddedau a gyflwynwyd i EID Cymru.
- Map o'ch rhifau CPH fel y'u cofnodwyd ar Rheoli fy CPH gan gynnwys CPH Dros Dro (tCPH) a Chymdeithasau Tir Dros Dro (TLAs).

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cyfrif yr holl anifeiliaid ar **BOB** daliad lle chi yw'r ceidwad.
- Edrych ar dagiau clust sampl o'r anifeiliaid ar bob un o'r daliadau. Mae maint y sampl yn dibynnu ar faint y ddiadell neu'r eifre.
 - Os gwelir bod y gofynion adnabod a thagio wedi'u torri, bydd y sampl yn cael ei ymestyn drwy ddewis sampl (fwy) arall.
 - Os bydd achosion eraill o dorri gofynion yn yr ail sampl, gellir archwilio'r ddiadell neu'r eifre gyfan.

Archwiliad cofnodion

- Cofnod geni/adnabod.
- Cadarnhau bod cofnodion symud a thrwyddedau yn cyfateb i'r manylion a gedwir gan EID Cymru.
- Marwolaethau – wedi'u cofnodi mewn cofnodion diadell gan nodi rhifau adnabod unigol a'u gwirio yn erbyn derbynebaw iard gelanedd/cynelau cŵn hela/NFSCo.
- Cofnod o'r tagiau newydd a ddefnyddiwyd.
- Cofnod o anifeiliaid a uwchraddiwyd o'r tag lladd.
- Gwneud yn siŵr bod sampl o'r anifeiliaid yr edrychwyd ar eu tagiau wedi'u cofnodi yn y cofnodion symud neu gofnodion geni/adnabod neu'r cofnodion tagiau newydd/wedi'u huwchraddio.
- Cysoni'r ffigur cyfrif stoc/Stocrestr Flynyddol.
 - Gweithio'n ôl o'r cyfrif i'r ffigur ar 1 Rhagfyr ar gyfer **pob** CPH.
 - Gall archwiliadau a gynhelir yn gynnar yn y flwyddyn weithio'n ôl i flynyddoedd stocrestr blaenorol er mwyn gallu edrych ar ddigon o symudiadau.

Cysoni yn seiliedig ar:

Cyfanswm nifer yr anifeiliaid a gyfrwyd	
+ Nifer yr anifeiliaid a symudwyd oddi ar y daliad (h.y. eu gwerthu)	
+ Nifer y colledion	
= Is-gyfanswm	
- Nifer yr anifeiliaid a symudwyd i'r daliad (h.y. prynu)	
- Nifer y genedigaethau	
= Cyfanswm	

Archwilio defaid a geifr (SM)

SMR 9 - Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 9.
- Peidiwch â bwydo bwydydd sydd wedi'u gwahardd (protein anifeiliaid) i unrhyw anifail fferm.
- Peidiwch â gadael i fwydydd ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ac sydd â phrotein dan gyfyngiadau ynddo halogi bwydydd ar gyfer anifeiliaid sy'n cnoi cil.
- Gwnewch yn siŵr bod bwyd cŵn ac ati yn cael ei storio ar wahân i fwydydd ar gyfer anifeiliaid fferm.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cadarnhau pa fath o anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid sy'n cael eu cadw.
- Cadarnhau a oes proteinau gwaharddedig yn cael eu defnyddio, ac os ydynt, a yw'r awdurdodiad/cofrestriad/caniatâd ar gyfer eu storio a/neu eu defnyddio ar gael.
- Gwneud yn siŵr bod bwydydd sydd dan gyfyngiadau yn cael eu cadw a'u bwydo ar wahân.

SMR 10 - Cynhyrchion diogelu planhigion a phlaladdwyr

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 10.
- Cadwch gofnodion cyfredol am yr holl blaladdwyr y byddwch yn eu defnyddio (gan gynnwys y rhai a ddefnyddir i sbot-chwistrellu):
 - pa gnwd gafodd ei drin
 - dyddiad trin y cnwd
 - y rheswm dros ei drin
 - pa gynnyrch a ddefnyddiwyd, gan gynnwys ei rif MAPP neu MAFF
 - faint o'r cynnyrch a ddefnyddiwyd
 - pa gaeau gafodd eu trin
 - y tywydd pan gafodd y cnwd ei drin.
- Defnyddiwch gynhyrchion cymeradwy yn gyfrifol, a darllenwch labeli'r cynhyrchion cyn eu defnyddio a gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y manylion, gan gynnwys lleiniau clustogi (pan fo hynny'n berthnasol) ac yn cadw llygad ar amodau'r tywydd.
- Gwnewch yn siŵr bod contractwyr yn darparu cofnodion manwl.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru gyda Defra – ffurflen Cynhyrchion Proffesiynol ar gyfer Diogelu Planhigion (PPPs).
- Gwnewch yn siŵr bod peiriannau'n cael eu graddnodi a'u hailbrofi'n rheolaidd.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Yr wybodaeth sydd i'w gweld ar sampl o gynhyrchion sy'n cael eu storio (e.e. enw/cynhyrchydd y cynnyrch, rhif/cymeradwyaeth MAFF/MAPP adeg ei ddefnyddio).
- Archwilio sampl o gaeau sydd wedi'i drin i groesgyfeirio yn erbyn y cofnodion.

Archwiliad cofnodion

- Cofnod plaladdwyr – manylion prynu/defnyddio.
- Gwneud yn siŵr bod cynhyrchion yn cael eu defnyddio yn unol â'r fanyleb ar y label e.e. ar y cnwd priodol.
- Edrych i weld a oes cofnod ar gyfer unrhyw gaeau y gwelir eu bod wedi'u trin.

Lles Anifeiliaid: SMR 11 - Lles Lloi, SMR 12 - Lles Moch, SMR 13 - Lles Cyffredinol Anifeiliaid

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan bob SMR.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2007. Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hynny'n cynnwys:
 - gwybod am y cod ymarfer perthnasol ar gyfer lles da byw a defnyddio'r cod hwnnw
 - cadw cofnodion am feddyginiaethau milfeddygol a'u cadw'n gyflawn ac yn gyfredol.
 - cadw cofnodion am dda byw sydd wedi marw yn gyfredol, gan gofio cofnodi'r dyddiadau y buont farw.

Mae'r codau lles penodol ar gyfer gwartheg, defaid a moch ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid>

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cadarnhau bod yr holl dda byw a ffermir sydd dan eich gofal yn dod o dan y Cyfeirnod Cwsmer (CRN) perthnasol – gallai gynnwys mwy nag un rhif CPH.
- Cyfrif yr anifeiliaid ac edrych ar eu lles cyffredinol.

Dyma enghreifftiau o'r hyn y bydd yr archwilydd am ei gadarnhau yn ystod yr ymweliad (nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr):

- Bod digon o archwiliadau'n cael eu cynnal, yn ôl oedran/amgylchedd y da byw e.e. dwys/heb fod yn ddwys.
- Bod yr anifeiliaid yn cael eu bwydo i fodloni eu hanghenion corfforol ac yn cael digon o ddŵr.
- Bod y cyfarpar porthi a dyfrio yn addas i rywogaeth, oedran a maint yr anifeiliaid ac yn ddigonol ar gyfer maint y grŵp.
- Bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw mewn grwpiau addas yn ôl oedran/rhyw/maint yr anifeiliaid yn y grŵp er mwyn osgoi cystadleuaeth a bwlio.
- Bod gan yr anifeiliaid ddigon o le yn y lloc yn ôl rhywogaeth a maint y grŵp.
- Nid yw'r anifeiliaid yn cael eu cyfyngu rhag symud mewn ffordd a allai achosi dioddefaint neu anaf.
- Bod gan yr anifeiliaid gysgod a man sych sy'n draenio'n dda i orwedd arno.
- Nid oes yn yr adeiladau unrhyw ddeunyddiau niweidiol nac ymylon miniog a allai anafu'r anifeiliaid.

- Bod digon o olau yn yr adeiladau i fedru archwilio'r anifeiliaid ac i ddiwallu eu hanghenion biolegol.
- Nid yw'r anifeiliaid wedi'u hanffurfio a bod gwaith sbaddu, datgornio a thorri cynffonnau ŵyn yn cael ei wneud yn briodol fel y nodir yn y cod ymarfer perthnasol.
- Bod anifeiliaid sâl yn cael gofal priodol a bod yr adeilad y cedwir anifeiliaid sâl ynddo yn briodol.
- Bod gan anifeiliaid newydd-anedig yn eu hwythnos gyntaf ddigon o wres neu ddeunydd gorwedd i osgoi hypothermia.

Archwiliad cofnodion

- Mae'r cofnodion am feddyginiaethau milfeddygol ac am dda byw sydd wedi marw yn gyflawn ac yn gyfredol ac ar gael ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

SMR 14 - Mynediad Statudol i'r Cyhoedd: yn cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus a thir Mynediad Agored.

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 14
- Edrychwch ar eich map SFS, sydd ar gael ar RPW Ar-lein, i weld lle mae'r hawliau tramwy cyhoeddus a'r tir Mynediad Agored ar eich fferm, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw ac nad ydynt yn cael eu rhwystro. Dylech dorri llystyfiant sy'n gordyfu o amgylch gatiau, llwybrau, pontydd a chamfeydd - mae hyn yn cynnwys clirio llystyfiant uwchben.
- Dylid cysylltu ag Awdurdodau Lleol neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol os oes unrhyw broblemau yn ymwneud â'r hawliau tramwy cyhoeddus ar eich tir, gan gynnwys arwyddion. Rydym yn eich annog i gadw cofnodion o gysylltiad â'r awdurdodau hyn.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cerdded sampl o barseli tir ac edrych i weld bod yr holl hawliau tramwy cyhoeddus ar agor, yn hygyrch ac ar gael i'w defnyddio yn ddi-dâl, a bod mynediad yn cael ei ganiatáu ar droed ar yr holl dir a nodwyd fel tir Mynediad Agored.

SMR 15 - Rhywogaethau Estron Goresgynol

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan SMR 15.
- Edrychwch ar eich tir i weld a oes planhigion rhywogaethau estron goresgynol ar eich daliad
- Os oes planhigyn rhywogaethau estron goresgynol ar eich tir, dylech gymryd camau rhesymol i reoli eu lledaeniad.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych a oes camau rhesymol yn cael eu cymryd i atal lledaeniad planhigyn rhywogaethau estron goresgynol newydd neu bresennol i mewn, oddi mewn, neu oddi ar unrhyw ardal o'ch tir.

Gwiriadau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)

GAEC 2: Dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i ddyfrhau

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr bod gennych y trwyddedau a'r cofnodion priodol os ydych chi'n tynnu dŵr.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych i weld a oes tystiolaeth o ddŵr yn cael ei dynnu.
- Edrych ar gofnodion
- Copi o drwydded tynnu dŵr

GAEC 3: Dŵr daear

Sut i baratoi

- Os ydych yn cael gwared ar sylweddau peryglus*, a/neu sylweddau nad ydynt yn beryglus, sicrhewch eich bod yn dal Trwydded Rheoli Amgylcheddol ddilys.
- Sicrhewch fod pob sylwedd peryglus a pheth nad yw'n beryglus yn cael eu storio, eu defnyddio a gwaredu unrhyw wastraff ohonynt yn gywir.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Gwirio bod sylweddau peryglus*/llygrwyr nad ydynt yn beryglus yn cael eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu'n briodol, ac yn cydymffurfio ag amodau unrhyw drwydded a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a arferai gael ei alw'n Awdurdodiad Dŵr Daear.
- Swyddogion CNC fydd yn cynnal yr archwiliad fel arfer. Ar gyfer archwiliadau sylfaen reoleiddio, bydd swyddogion CNC yn ymuno ag archwilydd Arolygiaeth Wledig Cymru.

*Yn cynnwys dip defaid a phlaladdwyr

Archwiliad cofnodion

- Gwirio cydymffurfiaeth a gofynion trwyddedau.

GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Cynnal a Chadw

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun rheoli llosgi a/neu ganiatâd sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol os ydych chi'n cynnal gweithgareddau perthnasol.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Llosgi y tu allan i'r tymor, llosgi heb gynllun llosgi, llosgi gweddillion cnwd
- Ail hadu/aredig wedi ei wneud heb caniatâd angenrheidiol h.y. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.
- Coedwigo ar dir amaethyddol neu brosiectau datgoedwigo heb ganiatâd.
- Cydymffurfio â hysbysiadau atal, caniatâd a gorfodi a gyhoeddir gan CNC.

Archwiliad cofnodion

- Cynllun Rheoli Llosgi Grug a Glaswelltir
- Caniatâd sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth)

GAEC 7: Nodweddion y dirwedd

Sut i baratoi

- Peidiwch ag achosi difrod i Heneb Gofrestredig drwy weithgareddau sy'n achosi neu'n annog erydiad pridd neu'n aflonyddu ar y ddaear mewn Heneb Gofrestredig. Bydd Henebion Cofrestredig i'w gweld ar eich Map SFS.
- Dylech gael trwydded cwmpo coed os oes mwy na 5 metr ciwbig o goed yn cael eu cwmpo bob chwarter calendr.
- Dylech gael caniatâd awdurdod lleol ar gyfer unrhyw waith ar goed a gwmpesir gan Orchymyn Cadw Coed (TPO).

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cynnal asesiad gweledol o unrhyw ddifrod i Heneb Gofrestredig.
- Gwneud yn siŵr bod yr holl ffosydd (gan gynnwys ffosydd sych) ar y daliad wedi'u cadw.
- Gwneud yn siŵr nad oes mwy na 5 metr ciwbig o goed wedi'u cwmpo bob chwarter calendr (ar yr amod nad oes mwy na 2 fetr ciwbig yn cael ei werthu) heb drwydded cwmpo coed ddilys gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Gwneud yn siŵr nad oes unrhyw goed wedi'u cwmpo, hyd yn oed gyda thrwydded, rhwng 1 Mawrth a 31 Awst
- Edrych i weld a oes coed sy'n cael eu gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed (a roddwyd gan yr awdurdod lleol) wedi'u torri, eu tocio neu eu cwmpo heb ganiatâd eich awdurdod lleol

Archwiliad cofnodion

- Trwydded cwmpo coed (os yw hynny'n berthnasol)
- Orchymyn Cadw Coed (TPO)

RHAN 2: ARCHWILIO HAEN GYFFREDINOL YR SFS

Mae Haen Gyffredinol yr SFS yn cynnwys y Cod i Bawb, gan gynnwys y gofyniad bod 10% o bob fferm sy'n rhan o'r cynllun yn gynefin a nifer o ymrwymadau penodol i fferm o dan set o Weithredoedd Cyffredinol (UA). Bydd eich Gweithred Gyffredinol benodol yn cael ei phennu o'r datganiad blynyddol a'r ymrwymadau ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF).

Sut i baratoi

- Edrychwch ar eich map SFS sydd ar gael ar RPW Ar-lein
- Os ydych chi'n rhentu tir i mewn neu allan yn ystod y flwyddyn, bydd angen i chi ystyried telerau'r cytundeb contractiol rhyngoch chi a'r trosglwyddai/trosglwyddwr yn ofalus.
- Dilynwch safonau'r Cod i Bawb, gan gynnwys y gofyniad bod 10% o fferm yn gynefin.
- Ymglyfarwyddwch â gofynion pob Gweithred Gyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio.
- Cynlluniwch eich gweithgareddau ar y fferm ar yr adeg fwyaf priodol a chyfleus o'r flwyddyn, gan ystyried gofynion pob Gweithred Gyffredinol.
- Diweddarwch y dangosfwrdd SFS wrth gwblhau pob Gweithred Gyffredinol neu wrth fodloni gofynion.
- Dylech greu, diweddarau a chadw cofnodion ar y fferm lle bo hynny'n briodol. Bydd angen cadw'r rhain am gyfnod o 5 mlynedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

Math o Gofnod	Pryd mae ei angen	Enghreifftiau o weithgareddau	Cyfeirnod Canllaw Cyffredinol yr SFS	Templed ar gael
Dyddiadur Gweithgareddau	Cod i Bawb: Diogelu Pridd, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd, Coed UA5: Cynnal Cynefin UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd.	Sefydlu cnydau gorchudd indrawn; clirio ffosydd; tocio gwrychoedd; torri gweirgloddiau; torri brwyn; gwaith coed	Adran H2, H3, H4; J5.4 J6.6 J8.6	Atodiad 7

Math o Gofnod	Pryd mae ei angen	Enghreiffiau o weithgareddau	Cyfeirnod Canllaw Cyffredinol yr SFS	Templed ar gael
Dyddiadur Stocio	Tir Comin UA5: Cynefinoedd Agored yr Ucheldir;	Math o dda byw, niferoedd, symudiadau ar dir comin neu gynefinoedd yr ucheldir	Adran E1; J5.4	Atodiad 8
Cofnodion Profion Pridd	UA1: Iechyd Pridd	Canlyniadau profion pridd ar gyfer P, K, Mg, pH, SOM fesul parcel	J1.6	Amherthnasol
Cofnodion Defnydd PPP	UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu	Dyddiad, lleoliad, cnwd, cynnyrch, faint, tywydd	J2.6	Atodiad 6
Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu	UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu	Cynllun IPM blynyddol a strategaeth rheoli plâu	J2.6	Amherthnasol
Tystiolaeth Meincnodi	UA3: Meincnodi	Offeryn a ddefnyddiwyd, dyddiad cwblhau (neu FARMDATA+ Cyswllt Ffermio)	J3.6	Amherthnasol
Cofnodion DPP	UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Teitl y cwrs, dyddiad, oriau, amcanion SLM a gwmpesir (neu Storfa Sgiliau Cyswllt Ffermio)	J4.6	Amherthnasol
Cofnodion Iechyd a Lles Anifeiliaid	UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid	Templed AHIC, Asesiad Risg Bioddiogelwch, Hyfforddiant Hyfedredd ac asesiad sgorio cyflwr y corff a symudedd.	J12.10	Atodiad 9 a 10
Tystiolaeth Cynnal a Chadw Amgylchedd Hanesyddol	UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol	Ffotograffau â geotag o ddirywiad i nodweddion hanesyddol a gweithredoedd cynnal a chadw	J11.7	Amherthnasol

Noder:

- Bydd y Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig (**UA7**) yn cael ei greu a bydd caniatâd SoDdGA (SSSI) ar ei gyfer yn cael ei gyhoeddi gan CNC.
- Bydd y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd (**UA10**) yn cael ei greu gennych chi, drwy RPW Ar-lein.

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Manylion y datganiad a map o'r holl dir a gofnodwyd ar eich SAF.
- Manylion am sut rydych chi'n bodloni'r gofyniad bod 10% o'r fferm yn gynefin.
- Manylion unrhyw gyfyngiadau ychwanegol ar eich daliad, e.e. haenau cyfyngiadau
- Rhestr o'r holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio.
- Delweddau lloeren ac o'r awyr o'ch fferm.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf fel y'i diweddarwyd ar y dangosfwrdd SFS.
- Hanes archwiliadau blaenorol.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Bydd yr archwilydd yn trafod yr archwiliad gyda chi i gynnwys:
 - Gofynion y Cod i Bawb a'r Gweithredoedd Cyffredinol.
 - Arferion ffermio cyffredinol
- Ymholiadau Cymhwysra Tir h.y. gwneud yn siŵr bod ffiniau parseli tir a chnydau a ddatganwyd yn gywir
- Gwneud yn siŵr bod y tir a ddatganwyd yn cael ei reoli'n briodol.
- Cerdded samplau cynrychiadol o'r daliad a ddatganwyd a pharseli tir a hawliwyd.
- Edrych ar safonau'r Cod i Bawb.
- Gwneud yn siŵr bod gofynion cynefin a choetir yn cael eu rheoli'n gywir
- Gwneud yn siŵr bod y cynefin lled-naturiol presennol, y coetir llydanddail sydd wedi'i sefydlu ac unrhyw berthi/gwrychoedd a chynefin dros dro a ddatganwyd yn bodloni'r gofyniad bod 10% o'r fferm yn gynefin. *
- Cyfrif neu archwilio niferoedd da byw os yw hynny'n briodol i bennu cydymffurfiaeth â Gweithredoedd Cyffredinol.

*Ni fydd yr archwilydd yn chwilio am unrhyw nodweddion cynefin ychwanegol a welir yn yr archwiliad i 'wrthbwysu' unrhyw orchudd tir neu nodweddion y bernir eu bod yn anghymwys.

Archwiliad cofnodion

- Caiff yr archwilydd edrych ar y Dyddiadur Gweithgareddau a/neu Stocio.
- Caiff yr archwilydd edrych am dystiolaeth fod y Gweithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau.
- Unrhyw ganiatâd a thrwyddedau perthnasol y gall fod eu angen.

Yn ogystal â chanllawiau ar sut i baratoi a beth i'w ddisgwyl yn ystod archwiliad Cyffredinol yr SFS, mae'r ddogfen hon yn darparu:

- Templedi o gofnodion fferm sy'n gysylltiedig â Sylfaen Reoleiddio'r SFS (gweler Atodiad 1-6).
- Enghreifftiau o gofnodion gweithgareddau/dyddiaduron stocio i'ch helpu i'w cwblhau'n gywir (gweler Atodiad 7 ac 8).
- Enghreifftiau yn ymwneud â'r Gweithredoedd Cyffredinol h.y. AHIC a Boddlogelwch ar gyfer anifeiliaid sy'n dod i mewn (gweler Atodiad 9 a 10).

Cymhwystira Tir

Bydd yr elfen cymhwystira tir yn dilysu ffiniau parseli tir, cnydau a nodweddion anghymwys a ddatganwyd ar y SAF.

- Mae gwaith dilysu yn cael ei gyflawni'n bennaf fel asesiad desg gan ddefnyddio cyfuniad o synhwyro o bell (lloeren) a delweddau o'r awyr.
- Os na all yr asesiad cychwynnol ddilysu pob parcel tir, bydd yr archwilydd yn ymweld â'r parseli tir i ddatrys yr ymholiad.

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi hysbysu RPW am unrhyw newidiadau defnydd tir o fewn 30 diwrnod.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gytundebau tenantiaeth neu rent ar gyfer yr holl dir rhent, gan gynnwys manylion cyswllt perchennog y tir.
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur stocio yn gyfredol, os yw Tir Comin yn rhan o'ch datganiad.

Gwybodaeth fydd gan yr archwilydd

- Map SFS o'ch fferm.
- Delweddau lloeren/delweddau o'r awyr o'ch fferm.
- Gwybodaeth am y SAF, gan gynnwys hawliau tir comin a ddatganwyd ac a hawliwyd.
- Unrhyw newidiadau tir a gyflwynir drwy 'Rheoli Fy Nhir'.
- Unrhyw ddogfennau ategol eraill rydych wedi eu cyflwyno mewn perthynas â'ch SAF.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Ymweld â'r parseli tir lle gall ymholiadau godi o asesiad delweddau lloeren/delweddau o'r awyr:
 - Lle na all lloeren asesu'r parcel e.e. gorchudd cwmwl
 - Lle gallai ffiniau fod wedi newid
 - Nodweddion parhaol neu anghymwys a nodwyd ond na ddatganwyd ar y SAF
 - Ymddengys bod cynefin neu goetir wedi'i ddatgan yn anghywir
 - Cnydau gwahanol i'r rhai a ddatganwyd ar y SAF
- Gwneud yn siŵr bod gennych y gallu i droi'r stoc berthnasol allan i'r comin y mae gennych hawliau pori cofrestredig ar ei gyfer.

Archwiliad cofnodion

- Gwneud yn siŵr bod y tir a ddatganwyd drwy gytundebau rhent neu denantiaeth yn cael ei reoli'n briodol.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn cadw dyddiadur stocio o stoc sydd wedi ei throi allan ar y comin.

Y Cod i Bawb

Mae'r Cod i Bawb yn set o ofynion anrheoleiddiol y mae'n rhaid i bob hawliwr sy'n cymryd rhan yn yr SFS - Haen Gyffredinol eu dilyn.

Bydd disgwyl i chi fodloni gofynion y Cod i Bawb am 12 mis llawn blwyddyn y cynllun.

Mae'r Cod i Bawb yn cynnwys pedair rhan:

1. Diogelu pridd
2. Bioamrywiaeth a chynefinoedd, gan gynnwys bod 10% o'ch fferm yn gynefin
3. Coed
4. Nodweddion y dirwedd

1. Diogelu pridd

Sut i baratoi

- Dilynwch ofynion y Cod i Bawb.
- Os ydych chi'n gadael pridd yn foel dros gyfnod y gaeaf (hyd at 1 Mawrth), gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau asesiad risg wyneb garw.
[Trawsgydymffurfio: pridd wyneb garw \(hysbysiad asesiad risg\) | LLYW.CYMRU](#)
- Edrychwch ar eich Map SFS ar RPW Ar-lein
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur gweithgareddau yn gyfredol ac ar gael adeg yr archwiliad

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych am unrhyw erydiad pridd a/neu ddŵr ffo o'r pridd
- Edrych am bridd moel dros gyfnod y gaeaf (hyd at 1 Mawrth)
- Gwneud yn siŵr nad oes porthiant atodol yn cael ei roi ger cyrsiau dŵr, bod clustogfeydd yn bresennol ac yn cael eu cynnal, tystiolaeth o waith trin amhriodol ac ati.
- Gwneud yn siŵr nad yw indrawn wedi'i sefydlu ar lethrau o 12 gradd neu fwy.
- Gwneud yn siŵr bod yr holl dir wedi'i orchuddio'n ddigonol gan gnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant arall bob amser.
- Gwneud yn siŵr bod is-gnwd wedi'i hau o dan y prif gnwd ar dir sy'n agored i lifogydd.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu eich dyddiadur gweithgareddau – gweler Atodiad 7.
- Efallai y gofynnir i chi ddarparu copi o'ch asesiad risg wyneb garw
- Os yw unrhyw dir ar y daliad yn dod o fewn ardal cyfyngiadau ar y map – gwirio bod y gofynion ychwanegol wedi'u bodloni.

2. Bioamrywiaeth a Chynefinoedd

Sut i baratoi

- Dilynwch ofynion y Cod i Bawb.
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur gweithgareddau yn gyfredol ac ar gael adeg yr archwiliad
- Nodwch yn glir wrychoedd sydd mewn Cyflwr Da a/neu Gynefin Dros Dro ar dir wedi'i wella os cânt eu defnyddio i fodloni'r gofyniad bod 10% o fferm yn gynefin.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesiad gweledol o dir cynefin am unrhyw ddifrod (gan gynnwys aredig, ail-hadu, llosgi, mewnbynnau, porthi atodol amhriodol, storio deunyddiau a pheiriannau ac ati)
- Gwiriad gweledol i weld a yw clirio ffosydd wedi digwydd yn unol â'r Cod Cyffredinol, hynny yw rhwng 1 Medi a 28/29 Chwefror lle nad yw'r tir o fewn safle gwarchodedig.
- Edrych i weld a yw tail yn cael ei storio'n amhriodol h.y. tail buarth ar dir cynefin
- Cynnal gwiriad sampl ar wrychoedd a ddatganwyd ar gyfer y gofyniad bod 10% o fferm yn gynefin, i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofyniad 'cyflwr da', gan gynnwys uchder a lled.
- Os caiff ei ddatgan ar gyfer y 10% o gynefin, bydd cynefinoedd dros dro a grëwyd ar dir wedi'i wella (gan gynnwys cyfyngiadau ar gyfer gwlyptiroedd a dŵr) yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion, h.y. bod y dyddiadau sefydlu a chadw wedi'u bodloni.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu eich dyddiadur gweithgareddau – gweler Atodiad 7.

3. Coed

Sut i baratoi

- Dilynwch ofynion y Cod i Bawb.
- Dylech gael trwydded cwmpo coed pan fo angen a sicrhau ei bod ar gael i'w harchwilio.
- Cadw tystiolaeth ar ffurf ffotograffau a/neu lythyrau gan yr awdurdod cymwys perthnasol sy'n nodi pam yr oedd angen torri neu docio coed.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Gwriadr gweledol i sicrhau nad oes difrod wedi'i wneud.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu eich dyddiadur gweithgareddau – gweler Atodiad 7.
- Gellir edrych ar y drwydded cwmpo coed os yw hynny'n berthnasol.
- Edrych ar unrhyw dystiolaeth ddogfennol lle gall eithriad fod yn berthnasol.

4. Nodweddion tirwedd

Sut i baratoi

- Dilynwch ofynion y Cod i Bawb.
- Dylech gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau gan yr awdurdodau cymwys perthnasol, sy'n dangos yn glir pam yr oedd angen torri neu docio coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Edrych am ddifrod neu dystiolaeth bod nodweddion tirwedd wedi'u tynnu e.e. gwrychoedd, glannau, waliau cerrig, pyllau ac ati.
- Gwneud yn siŵr bod clustogfeydd priodol i nodweddion tirwedd wedi'u cynnal.
- Gwneud yn siŵr nad yw gwrychoedd yn cael eu torri o fewn tymor nythu adar
- Edrych ar ffiniau allanol i sicrhau eu bod yn cadw stoc mewn neu allan

Archwiliad cofnodion

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth, h.y. ffotograffau a/neu lythyrau gan yr awdurdodau cymwys perthnasol.

- Efallai y gofynnir i chi ddarparu copi o unrhyw un o'r dystiolaeth ganlynol (os yw'n berthnasol):
 - Trwydded cwmpo ddilys
 - Caniatâd cynllunio llawn
 - Hysbysiad a gyhoeddwyd i gydymffurfio â Deddf Seneddol neu Ddeddf y Senedd
 - Hysbysiad lechyd Planhigion Statudol

Gweithredoedd Cyffredinol (UA)

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb byr o'r hyn y mae angen i chi ei wneud ar gyfer pob Gweithred Gyffredinol a pha dystiolaeth sydd ei hangen erbyn pryd.

Efallai na fydd rhai Gweithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau adeg yr archwiliad, ond bydd yr archwilydd yn dal i drafod y gofyniad gyda chi yn ystod yr ymweliad.

Noder:

Bydd gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'r busnes ffermio ar eich dangosfwrdd SFS, drwy RPW Ar-lein, erbyn 15 Ionawr 2027.

Ar gyfer rhai o'r Gweithredoedd Cyffredinol, bydd angen i chi gofnodi gwybodaeth ychwanegol ar y dangosfwrdd.

Gweithred Gyffredinol	Cam Gweithredu	Beth rydych chi'n ei wneud	Dyddiad cau ar gyfer y Weithred Gyffredinol	Tystiolaeth sydd ei hangen
1	Cynllunio lechyd Pridd	Profi'r pridd ar o leiaf 20% o dir wedi'i wella sy'n derbyn mewnbynnau (parseli tir) i lywio gwaith rheoli maethynnau. Bydd pob parcel cae perthnasol yn cael ei brofi o fewn cylch 5 mlynedd.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr	Canlyniadau profion pridd wedi'u cadarnhau ar gyfer pob parcel tir ar y dangosfwrdd SFS. Canlyniadau profion pridd yn cael eu cadw ar y fferm.
2	Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)	Cynnal asesiad IPM, cofnodi defnydd o PPP, a mabwysiadu dewisiadau amgen nad ydynt yn gemegion.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr	Cofnodion defnydd o PPP a chynllun IPM dogfennol yn cael eu cadw ar y fferm.
3	Meincnodi	Dewis Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodol a chynnal asesiadau perfformiad gan ddefnyddio Cyswllt Ffermio neu offer meincnodi tebyg y diwydiant neu gyflenwr.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr	Cyswllt Ffermio (FARMDATA+) NEU cadarnhau'r offeryn meincnodi a ddefnyddir. Canlyniadau meincnodi yn cael eu cadw ar y fferm.

Gweithred Gyffredinol	Cam Gweithredu	Beth rydych chi'n ei wneud	Dyddiad cau ar gyfer y Weithred Gyffredinol	Tystiolaeth sydd ei hangen
4	Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	Cwblhau ≥ 6 awr o ddysgu ynghyd â hyfforddiant iechyd a diogelwch, a chofnodi cynnydd.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr	Cyswllt Ffermio (Storfa Sgiliau) NEU cadarnhau bod DPP wedi'i gwblhau ar y dangosfwrdd SFS. Cofnodion DPP yn cael eu cadw ar y fferm.
5	Cynnal Cynefinoedd	Cynnal cynefinoedd presennol.	Yn parhau drwy gydol blwyddyn y cynllun	Datganiad SAF o'r math o gynefin a'r arwynebedd. Cofnodion rheoli, ar ffurf dyddiaduron gweithgareddau a/neu stocio, yn cael eu cadw ar y fferm.
6	Creu Cynefinoedd Dros Dro	Creu cynefinoedd dros dro (e.e. lleiniau clustogi) i fodloni'r gofyniad bod 10% o fferm yn gynefin.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr	Datganiad SAF o gynefin dros dro. Cadarnhad i'w ddarparu ar y dangosfwrdd SFS. Cofnodion rheoli, ar ffurf dyddiadur gweithgareddau, yn cael eu cadw ar y fferm.

Gweithred Gyffredinol	Cam Gweithredu	Beth rydych chi'n ei wneud	Dyddiad cau ar gyfer y Weithred Gyffredinol	Tystiolaeth sydd ei hangen
7	Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig	Datblygu a chynnal cynlluniau ar gyfer rheoli SoDdGA neu safleoedd dynodedig eraill.	Erbyn 31 Rhagfyr 2030.	Dogfen cynllun rheoli a Rhestr o'r Gwaith sydd wedi cael cydsyniad CNC.
8	Rheoli Perthi/Gwrychoedd	Rheoli gwrychoedd yn rheolaidd, cadw coed gwrychoedd, cynnal lleiniau clustogi.	Yn parhau drwy gydol blwyddyn y cynllun	Rhaid cadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau/e-byst oddi wrth y cwmnïau perthnasol neu'r awdurdodau cymwys sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed yn amlach na phob yn ail flwyddyn.
9	Cynnal a Chadw Coetir	Rheoli ardaloedd coetir presennol ar gyfer iechyd a bioamrywiaeth.	Yn parhau drwy gydol blwyddyn y cynllun	Datganiad SAF o'r math o goetir a'r arwynebedd.
10	Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd	Cynllunio lleoliadau ar gyfer plannu yn y dyfodol Targed i blannu 0.1ha o goed .	Cynllunio erbyn 31 Rhagfyr y flwyddyn gyntaf yn y cynllun SFS. Plannu 0.1 ha o goed erbyn 31	Cynllun cyfle i'w gwblhau ar RPW Ar-lein. Tystiolaeth o blannu coed erbyn 2028 drwy ddatganiad SAF blynyddol neu grantiau Creu Coetir.

			Rhagfyr 2028	
11	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Nodi, gwarchod a rheoli nodweddion archaeolegol neu hanesyddol y fferm.	Yn parhau drwy gydol blwyddyn y Cynllun	Cofnodion rheoli, ar ffurf dyddiadur gweithgareddau, yn cael eu cadw ar y fferm.
12	Iechyd a Lles Anifeiliaid	Cynnal Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) blynyddol, asesiad bioddiogelwch ac asesiadau symudedd a sgorio cyflwr corff. Rhaid cwblhau hyfforddiant hyfedredd bob 5 mlynedd.	Bob blwyddyn erbyn 31 Rhagfyr.	AHIC, asesiad bioddiogelwch, asesiad lles a hyfforddiant hyfedredd wedi'i gwblhau i'w gadarnhau ar y dangosfwrdd SFS. Yr holl gofnodion yn cael eu cadw ar y fferm

UA 1 - Iechyd y Pridd

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Profwch y pridd ar yr adeg fwyaf priodol o'r flwyddyn.
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddararu mewn modd amserol fel cynnydd tuag at gwblhau'r Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod copiâu o'ch data profion pridd yn ystod y 5 mlynedd blaenorol ar gael.
- Mae canllawiau technegol ar gyfer profi pridd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: canllawiau technegol profi pridd | LLYW.CYMRU](#)

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesiad gweledol o barseli i gadarnhau bod y datganiad SFS ar gyfer tir wedi'i wella yn gywir o ran mewnbynnau.

Archwiliad cofnodion

- Gwneud yn siŵr bod 20% o'r caeau sy'n cynnwys tir wedi'i wella wedi'u profi
- Gwneud yn siŵr bod yr ystod ofynnol o brofion wedi'i chynnal (P, pH, K, Mg, SOM)
- Tystiolaeth o ganlyniadau profion pridd

UA 2 - Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gofnod cyfredol o'r holl Gynhyrchion Diogelu Planhigion (PPP) rydych wedi'u defnyddio ar eich tir.
- Cwblhewch Gynllun IPM, dylai hyn ddangos yn y man lleiaf:
 - Eich asesiad o'r dulliau amgen a ddefnyddir i leihau'r defnydd o gemegau
 - Asesiad o'ch dull presennol o reoli plâu cynydau, chwyn a chlefydau
 - Cyfleoedd ar gyfer defnyddio dulliau IPM ychwanegol
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gopi o'r cynllun IPM yn barod i'w archwilio.
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddararu h.y. pan fydd y cynllun IPM wedi'i gwblhau.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad cofnodion

- Edrych ar y cynllun IPM i gadarnhau bod y gofynion wedi'u bodloni.
- Edrych ar y cofnodion defnydd o PPP

Mae'r sefydliadau canlynol yn cynnig cyngor a gwybodaeth am ddim (nid yw hon yn rhestr lawn):

- Mae [ADAS](#) yn cynnal ymchwil ac yn rhoi arweiniad.
- Mae hyb [IPM Bwrdd Datblygu Amethyddiaeth a Garddwiriaeth \(AHDB\)](#) yn darparu offer ac arweiniad ar IPM i ffermwyr
- Mae [IPM@Hutton](#) yn cynnal ymchwil ac yn darparu adnoddau ar IPM
- Mae [IPM Works](#) yn rhwydwaith sy'n arddangos ac yn hyrwyddo strategaethau IPM
- Mae [Voluntary Initiative](#) yn gynllun o dan arweiniad y diwydiant sy'n darparu offer cynllunio, ffeithluniau a chyngor ar IPM i ffermwyr

UA 3 - Meincnodi

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Os bydd y gwaith meincnodi wedi'i gwblhau drwy Cyswllt Ffermio gan ddefnyddio FARMDATA+, bydd y dangosfwrdd SFS yn cael ei ddiweddarau'n awtomatig.
- Os ydych chi'n defnyddio offeryn meincnodi tebyg y diwydiant neu gyflenwr i fodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon, bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r archwilydd eu gweld.
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddarau os nad ydych chi'n defnyddio Cyswllt Ffermio h.y. pan fydd y meincnodi wedi'i gwblhau.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesiad gweledol ar y fferm i sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer sectorau perthnasol yn cael eu cynnal e.e. y math o dda byw ar y fferm.

Archwiliad cofnodion

- Edrych ar y dogfennau meincnodi os nad ydych chi'n defnyddio Cyswllt Ffermio.

UA 4 - Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Os caiff DPP ei gwblhau drwy Cyswllt Ffermio, a'i gadw ar Storfa Sgiliau, bydd y dangosfwrdd SFS yn cael ei ddiweddarau'n awtomatig.
- Os nad ydych chi'n gwneud eich DPP drwy Cyswllt Ffermio, bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddogfennau hyfforddi perthnasol ar gael i'r archwilydd eu gweld
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddarau mewn modd amserol fel cynnydd tuag at gwblhau'r Weithred Gyffredinol.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad cofnodion

- Edrych ar y cofnodion DPP os nad ydych chi'n defnyddio Cyswllt Ffermio.
- Gwneud yn siŵr bod o leiaf 6 awr o ddysgu wedi'i gwblhau gan aelodau/partneriaid yn y busnes ffermio.
- Gwneud yn siŵr bod y modiwl hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol wedi'i gwblhau

UA 5 - Cynnal Cynefinoedd

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur gweithgareddau yn gyfredol ac ar gael
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur stocio yn gyfredol, os yw cynefin agored yr ucheldir yn rhan o'ch datganiad.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesu a yw'r dosbarthiad cynefinoedd yn cyfateb i'ch datganiad.
- Gwneud yn siŵr bod cynefinoedd yn cael eu cynnal yn gywir yn unol â'r dosbarthiad cynefinoedd bras perthnasol ac, ar gyfer unrhyw dir a ddynodir yn SoDdGA (SSSI), yn unol ac unrhyw ganiatâd SoDdGA dilys, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol sy'n berthnasol i'r SoDdGA.
- Efallai y gofynnir i chi gasglu da byw i gadarnhau eich bod yn cydymffurfio â chyfraddau stocio.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y byddwn yn gofyn am weld eich dyddiadur gweithgareddau a/neu stocio – gweler Atodiad 7 ac 8.

UA 6 - Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddarau mewn modd amserol wrth i chi symud tuag at gwblhau'r Weithred Gyffredinol.
- Os oes angen o dan y dosbarthiad cynefinoedd, gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur gweithgareddau/stocio ar gael
- Gwnewch yn siŵr bod labeli/derbynebau hadau ar gael os oes angen

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesu cynefinoedd dros dro sydd wedi'u creu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol sydd yn ymwneud â safleoedd gwarchodedig.
- Gwneud yn siŵr bod yr ardal gywir wedi'i chreu fel y datganwyd ar eich SAF neu ddangosfwrdd SFS.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y byddwn yn gofyn am weld eich dyddiadur gweithgareddau – gweler Atodiad 7.
- Os oes angen, efallai y byddwn yn edrych ar labeli/derbynebau hadau

UA 7 - Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig (DSMP)

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Os oes gennych gytundeb rheoli presennol gyda CNC neu gynllun DSMP newydd y cytunwyd arno o dan yr SFS, gwnewch yn siŵr ei fod ar gael.
- Gwnewch yn siŵr bod eich dyddiadur stocio yn gyfredol, os yw cynefin agored yr ucheldir yn rhan o'r safle dynodedig.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Cynnal asesiad gweledol o'r cynefin a/neu'r ardaloedd coetir ar y safleoedd dynodedig yn unol â gofynion y Weithred Gyffredinol neu'r Cynllun Rheoli.

Archwiliad cofnodion

- Efallai y byddwn yn gofyn am weld eich dyddiadur gweithgareddau a/neu stocio – gweler Atodiad 7 ac 8.

UA 8 - Rheoli Perthi/Gwrychoedd

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Cadw unrhyw dystiolaeth lle mae eithriadau wedi'u cymhwyso.
- Nodi a rheoli'n rhagweithiol coed gwrychoedd posibl wrth rheoli'r gwrych drwy dorri neud docio.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesu gwrychoedd a reolir ar y ddaear, gan edrych ar gyflwr, twf cynyddol a choed gwrychoedd.
- Edrych am dystiolaeth bod gwrychoedd yn cael eu torri neu eu tocio yn ystod tymor nythu adar.
- Nifer cyfartalog y coed, gan gynnwys unrhyw gofynion ychwanegol sy'n ymwneud a safleoedd gwarchodedig.

Archwiliad cofnodion

- Rhaid cadw dystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau/e-byst oddi wrth y cwmnïau perthnasol neu'r awdurdodau cymwys sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed yn amlach na phob yn ail flwyddyn.

UA 9 - Cynnal Coetir

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod copi o'r drwydded cwmpo coed ar gael (os oes angen un)
- Cadwch dystiolaeth ffotograffig os ydych wedi cwmpo coeden am ei bod yn beryglus.
- Cadwch dystiolaeth o pam mae coed wedi cael eu torri/tocio rhwng 1 Mawrth a 31 Awst
- Cadwch unrhyw gymeradwyaethau/awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer gweithgareddau mewn coetir
- Rhaid cadw'r holl dystiolaeth ar eich fferm am gyfnod o 5 mlynedd.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesu coetiroedd presennol i sicrhau bod gofynion y Weithred Gyffredinol yn cael eu bodloni
- Edrych am ddifrod i goed a'u gwreiddiau
- Edrych am dystiolaeth bod coed wedi'u torri, euocio neu eu cwmpo yn ystod tymor nythu adar
- Lle mae tir o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA / SSSI), rhaid sicrhau bod unrhyw gamau rheoli a gynhaliwyd wedi'u cynnwys o fewn caniatâd SSSI dilys.

Archwiliad cofnodion

- Ffotograffau a/neu ohebiaeth gan awdurdodau cymwys perthnasol i ddangos tystiolaeth o unrhyw eithriadau a roddwyd.

UA 10 - Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd drwy RPW Ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026.
- Nodi unrhyw blannu sydd wedi digwydd ers 1 Ebrill 2022.
- Os yw coed unigol neu goetir wedi'u plannu, gwnewch yn siŵr bod y rhain yn cael eu datgan ar eich SAF fel rhan o'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.
- Gwnewch yn siŵr bod cytundebau tenantiaeth neu rentu ar gael i'w harchwilio lle mae'r holl dir a ddatganwyd yn cael ei rentu, gan gynnwys manylion unrhyw gyfyngiadau ar blannu coed.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesiad gweledol, os oes unrhyw blannu wedi'i wneud.
- Trafod eich cynnydd o ran gweithredu'r cynllun

Archwiliad cofnodion

- Bydd yr archwilydd yn edrych i weld a oes cynllun ar waith
- Cofnodion sy'n gysylltiedig â phlannu nad yw wedi'i gefnogi'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru

UA 11 - Yr Amgylchedd Hanesyddol

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Edrychwch ar y Map SFS, sydd ar gael ar RPW Ar-lein, am yr holl nodweddion hanesyddol ar eich daliad.
- Dogfennwch unrhyw ddirywiad neu reolaeth weithredol a gynhaliwyd er budd ased hanesyddol. Rhaid i hyn gynnwys ffotograffau â geotag.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad ar y fferm

- Asesiad gweledol o Henebion Cofrestredig, Nodweddion Amgylcheddol Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig ac Adeiladau Fferm Traddodiadol i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion.
- Edrych am unrhyw dystiolaeth o reoli prysgwydd neu lystyfiant yn ystod tymor nythu adar.

Archwiliad cofnodion

- Gall yr archwilydd ofyn i weld dyddiadur gweithgareddau neu am ffotograffau â geotag o unrhyw ddirywiad.

UA 12 - Iechyd a Lles Anifeiliaid

Sut i baratoi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod y dangosfwrdd SFS wedi'i ddiweddarau mewn modd amserol fel cynnydd tuag at gwblhau'r Weithred Gyffredinol.
- Gwnewch yn siŵr bod copi o'ch templed Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid wedi'i gwblhau ar gael.
- Gwnewch yn siŵr bod copi o'ch Asesiad Boddlogelwch cyfredol ar gael.
- Gwnewch yn siŵr bod copi o'ch tystysgrif Hyfforddiant Hyfedredd ar gael.
- Gwnewch yn siŵr bod copi o'ch asesiad sgorio cyflwr y corff a symudedd ar gael.

Noder:

Os yw eich darparwr cynllun gwarant fferm yn cadarnhau y gall yr AHIC a'r Asesiad Boddlogelwch gael eu cwblhau gan y milfeddyg ar ei blatfform digidol, bydd hyn yn dystiolaeth dderbyniol ar gyfer yr elfen hon o'r Weithred Gyffredinol.

Bydd Hyfforddiant Hyfedredd a gwblhawyd drwy Cyswllt Ffermio yn dystiolaeth dderbyniol hefyd.

Beth fydd yr archwilydd yn ei wneud

Archwiliad cofnodion

- Edrych ar yr AHIC cyfredol a llofnod y practis milfeddygol os nad yw wedi'i gwblhau ar blatfform digidol gwarant fferm. Gweler Atodiad 9.
- Edrych ar Asesiad Boddlogelwch cyfredol os nad yw wedi'i gwblhau ar blatfform digidol gwarant fferm. Gweler Atodiad 10.
- Cadarnhau bod yr hyfforddiant Sgorio Cyflwr y Corff a Symudedd wedi'i gwblhau os nad yw wedi'i wneud drwy Cyswllt Ffermio.
- Edrych ar y cofnodion fferm i ddangos asesiad blynyddol o Sgorio Cyflwr y Corff a Symudedd ar gyfer da byw

Cysylltiadau a Gwybodaeth Ychwanegol

Llywodraeth Cymru

Canolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru

Taliadau Gwledig Cymru
Blwch Post 251
Caernarfon
LL55 9DA

Ffôn: [0300 062 5004](tel:03000625004) – Dydd Llun i ddydd Gwener 9am–4pm

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg / We welcome calls in Welsh.
Defnyddiwch eich cyfrif RPW ar-lein i e-bostio RPW.

Cadw

Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: [0300 025 6000](tel:03000256000)

E-bost: cadw@llyw.cymru

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg / We welcome calls and correspondence in Welsh.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: [0300 065 3000](tel:03000653000)

E-bost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg / We welcome calls and correspondence in Welsh.

Llinell gymorth ar gyfer digwyddiadau (24 awr): [0300 065 3000](tel:0300 065 3000)

Llinell llifogydd (24 awr): [0345 988 1188](tel:0345 988 1188)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Seacole Building
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF
Y Deyrnas Unedig

Ffôn: [03459 33 55 77](tel:03459 33 55 77)

E-bost: defra.helpine@defra.gov.uk

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Ffôn: [0300 303 8268](tel:0300 303 8268)

E-bost: APHA.CymruWales@apha.gov.uk

